| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **28 Ionawr 2015** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant/ Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Adroddiad Eglurhaol: Prif Reolwr - Cefnogi Busnes**<br>**Adroddiad Gwerthuso: AGGCC** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2012-13 AGGCC: Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ddinbych** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn nodi'r materion allweddol sy'n deillio o werthusiad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) o berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych am 2013-14. Mae copi o'r gwerthusiad llawn yn Atodiad I.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Sicrhau bod y Pwyllgor yn ymwybodol o'r gwerthusiad perfformiad ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol gan gynnwys meysydd cynnydd, meysydd i'w gwella a risg.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Argymhellir bod yr Aelodau yn ystyried y gwerthusiad AGGCC a'r adroddiad cynnydd cysylltiedig gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ac ystyried a oes angen unrhyw archwilio pellach. Mae'r Rheolwr Ardal ar gyfer AGGCC yn bwriadu mynychu'r cyfarfod er mwyn galluogi Aelodau i ofyn am eglurhad ar unrhyw elfen benodol o'r adroddiad gwerthuso AGGCC.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Bob blwyddyn mae AGGCC yn cynnal gwerthusiad cynhwysfawr o berfformiad gwasanaethau cymdeithasol pob awdurdod lleol. Mae'r gwerthusiad yn cwmpasu ystod eang o dystiolaeth, gan gynnwys: adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ar berfformiad a chynlluniau ar gyfer gwella yn ei ardal awdurdod lleol; gwaith rheoleiddio'r AGGCC; a barn archwilwyr ac arolygwyr eraill. Mae'r gwerthusiad yn cael ei gymedroli i sicrhau dull cyson, tryloyw a chymesur.

4.2. Yn gryno, mae’r gwerthusiad o Wasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych wedi amlygu bod eglurder a ffocws yn yr adroddiad sy'n amlinellu'r cyfeiriad ar gyfer gofal cymdeithasol yn Sir Ddinbych ac yn arbennig:

- Mae tystiolaeth gref o gymryd ymagwedd strategol i ateb yr heriau demograffig
- Mae'r Cyngor wedi gweithredu modelau arloesol o ymarfer a datblygu partneriaethau integredig
- Mae archwilio cadarn yn enwedig drwy heriau gwasanaeth a gwrando ar farn pobl gan danseilio’r rhaglen moderneiddio
- Ymrwymiad cryf a blaen gynllunio o ran yr iaith Gymraeg
- Mae perfformiad y gwasanaeth yn gryf

4.3. Mae nifer o feysydd penodol i'w gwella wedi cael eu nodi yn yr adroddiad AGGCC. Bydd cynnydd y cyngor mewn perthynas â'r rhain yn cael eu trafod yn ystod cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd rhwng yr Uwch Dîm Rheoli a'r AGGCC yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Y meysydd ar gyfer camau dilynol gan AGGCC y flwyddyn nesaf yw:

- Effaith newidiadau i'r isadeiledd POVA (Amddiffyn Oedolion Diamddiffyn)
- Sefydlu dull ymchwil trylwyr i ddal ac ymateb i farn plant, pobl ifanc a'u teuluoedd
- Gwella ansawdd y ddarpariaeth a'r canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal

4.4. Mae Atodiad II yn rhoi trosolwg o'r meysydd a nodir ar gyfer gwella yn y gwerthusiad perfformiad. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am sut mae'r cyngor yn ymateb i'r meysydd a nodwyd ar gyfer gwella.

4.5. Mae’r ardaloedd y nodwyd fel bod angen gwelliant yn unol â hunanasesiad y Cyfarwyddwr ac wedi cael eu hymgorffori yn y Cynlluniau Busnes Gwasanaeth ar gyfer 2014-15. Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu monitro yn ffurfiol bob chwarter gan y gwasanaethau, ac adroddir llawer o elfennau ddwywaith y flwyddyn i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad a’r Cabinet gan eu bod yn ffurfio rhan o'r Cynllun Corfforaethol. Hefyd, mae gan bob gwasanaeth Her Perfformiad Gwasanaeth blynyddol sy'n archwilio cynnydd yn erbyn Cynlluniau Busnes Gwasanaethau.

4.6. Gwnaed cynnydd sylweddol yn erbyn y meysydd i'w gwella a amlygwyd yn yr adroddiad gwerthuso perfformiad 2011-12. Fodd bynnag, cydnabyddir nad yw cynnydd wedi bod mor sylweddol ag y rhagwelwyd mewn perthynas â pherfformiad sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal. Mae'n bwysig tynnu sylw at y gwelliannau sylweddol sydd wedi cael eu gwneud ers yr arolygiad gyda 100% o lwyddiant mewn meysydd allweddol.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1. Roedd yr arolygiad yn rhoi safbwynt allanol o effeithiolrwydd y Cyngor o ran amddiffyn pobl ddiamddiffyn a hyrwyddo eu hannibyniaeth (un o'r blaenoriaethau yn ein Cynllun Corfforaethol). Mae'r gwerthusiad hefyd yn darparu persbectif ar raglenni ar gyfer moderneiddio ac addasu gwasanaethau gofal cymdeithasol.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Mae ymateb y Gwasanaeth i gyflawni camau gwella wedi cael eu hintegreiddio yn y Cynlluniau Busnes Gwasanaeth ar gyfer 2014/2015 a 2015/16. Bydd darparu’r cynlluniau hyn yn cael ei reoli o fewn yr adnoddau ariannol presennol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai’r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

7.1. Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) oherwydd nid yw'r adroddiad hwn yn gofyn am benderfyniad a fydd yn arwain at unrhyw newid ar gyfer staff neu'r gymuned ehangach. Bydd AEC yn cael ei wneud ar flaenoriaethau unigol os ydynt angen i brosiectau ddechrau a/neu i benderfyniadau gael eu gwneud.

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda’r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

8.1. Mae cyfarfodydd ymgysylltu yn cael eu cynnal gyda'r Uwch Dîm Rheoli ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol ac AGGCC sy'n helpu i lywio'r gwerthusiad yn ogystal ag asesu cynnydd wrth gyflawni gwelliant. Mae’r AGGCC hefyd yn mynychu ac yn cyfrannu'n weithredol at yr Her Perfformiad Gwasanaeth ar gyfer y ddau wasanaeth.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1. Mae camau i ymateb i'r camau gwella wedi cael eu hintegreiddio i mewn i’r Cynlluniau Busnes Gwasanaeth ar gyfer 2014-16 ac nid oes angen unrhyw adnoddau ychwanegol i’w darparu.

**10. Pa risgiau sydd yna, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1. “Mae’r risg o adroddiadau negyddol gan reolyddion allanol” yn risg sydd wedi ei nodi ar y Cofrestr Risg Corfforaethol. Ar y cyfan, mae hwn yn adroddiad cadarnhaol iawn, ond bydd angen i'r cyngor i ymateb yn gadarnhaol i'r materion a godwyd yn yr adroddiad er mwyn sicrhau bod adroddiad 2014-15 yn parhau i fod yn gadarnhaol.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Adran 3 Deddf Llywodraeth Leol 1999 - Dyletswydd Gwerth Gorau i sicrhau gwelliannau parhaus.

11.2. Adran 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 - dyletswydd i sicrhau gwelliant parhaus wrth ddarparu gwasanaethau.

11.3. Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 - dyletswydd i sicrhau gwelliant parhaus wrth ddarparu gwasanaethau.